RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT

# Polisi eDdysgu ac eAsesu



Cyhoeddwyd gan CITB, 4 Cyrus Way, Hampton, Peterborough, PE7 8HP.

© Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu 2025

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Gorffennaf 2025.

Mae CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SC044875).

Mae CITB wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir. Paratowyd y pecyn hwn fel adnodd y gellir ei lwytho i lawr. Gellir ei ddefnyddio heb ganiatâd pellach gan CITB ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio o fewn sefydliad y darparwr hyfforddiant cymeradwy yn unig ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i gael unrhyw fantais neu elw.

# Cyflwyniad

Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg o fewn y sector addysg alwedigaethol ar gyfer datblygu, cyflawni, gweinyddu ac adrodd ar eDddysgu ac eAsesu yn gofyn am ddull cadarn a chyson o ddefnyddio technoleg sy'n sicrhau canlyniadau diogel a dibynadwy.

Mae'r ddogfen hon yn nodi gofynion CITB sy'n mynd i'r afael â defnyddio eDdysgu ac eAsesu lle teimlir bod angen i CITB ddefnyddio dull safonol a chyson.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i gefnogi natur benodol y cyfryngau cyflawni hyn, a'i bwriad yw cefnogi hyblygrwydd ac annog arloesedd. Rhaid defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â'r dogfennau canlynol, lle bo'n berthnasol.

- Llawlyfr i Ddarparwyr Hyfforddiant CITB
- Categori Wedi'i Sicrhau CITB ar gyfer safonau cyfnod byr
- Categori Cydnabyddedig CITB ar gyfer safonau cyfnod byr
- Categori Trwyddedig CITB ar gyfer Site Safety Plus (rheolau'r cynllun, gofynion sicrhau ansawdd).

Mae'r dogfennau hyn yn cael eu cynhyrchu a'u newid o bryd i'w gilydd gan CITB, ac maent ar gael yn https://www.citb.co.uk/cy-gb/

Disgwylir i holl aelodau rhwydwaith darparwyr hyfforddiant CITB a sefydliadau trydydd parti gydymffurfio â'r gofynion hyn pan ddefnyddiwyd technoleg i helpu i ddarparu safon hyfforddiant cyfnod byr yn rhannol neu'n llawn a lle mae'r dechnoleg yn galluogi asesu safon cyfnod byr.

Bydd sicrwydd ansawdd systemau eDdysgu ac eAsesu yn cael ei ymgorffori gydag ymweliadau monitro, hunanasesiadau a chymeradwyaeth. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr hyfforddiant a sefydliadau trydydd parti fynd i'r afael ag unrhyw gamau gweithredu y tynnir sylw atynt yn ystod yr ymyriadau sicrhau ansawdd hyn.

Mae rhestr o ddeddfwriaethau, safonau'r diwydiant ac arferion gorau ar gael yng nghefn y ddogfen.

# Nodau ac Amcanion

Nodau CITB yw:

- Defnyddio technoleg sy'n cyrraedd safon sy'n cyfateb i gwrs hyfforddiant traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth, gan annog hyblygrwydd ac arloesedd.
- Annog pobl i ddefnyddio mathau arloesol o ddysgu ac asesu.
- Sicrhau bod dulliau eDdysgu ac eAsesu darparwyr hyfforddiant a sefydliadau trydydd parti yn gadarn.
- Sicrhau bod uniondeb, dibynadwyedd a dilysrwydd eDdysgu ac eAsesu yn cael eu cynnal, a hwyluso a chefnogi arferion hyfforddi ac asesu arloesol.
- Sicrhau bod trefn sicrhau ansawdd eDdysgu ac eAsesu yn adolygu'r egwyddorion canlynol.

**Perthnasol-** Mae allbynnau'r cwrs yn gwirioneddol fodloni gofynion y safon hyfforddiant.

**Dibynadwy-** Mae'r cwrs yn cynhyrchu'r un canlyniadau ni waeth o dan ba amser, lleoliad, carfan neu gyd-destun y cyflwynir yr e ddysgu/e asesu.

**Effeithlon-** Mae'r system o ansawdd uchel ac yn hawdd ei defnyddio ac yn hwyluso mynediad i'r holl gynrychiolwyr.

**Cadarnhaol-** Mae cynrychiolwyr a chyflogwyr yn ymddiried yn y system a'r cwrs ac mae'n sicrhau'r canlyniadau cywir. Mae'r profiad yn agored, yn dryloyw ac yn hygyrch.

**Dysgu-** Mae dysgu ac adolygu parhaus yn rhan o gynllun cylchol ar gyfer y Darparwr Hyfforddiant a/neu'r trydydd parti.

# Cwmpas

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y gofynion ar gyfer datblygu a gweithredu eDdysgu, eAsesu a'u systemau ategol ar gyfer darparwyr hyfforddiant a sefydliadau trydydd parti.

Diffinnir eDdysgu ac eAsesu at ddibenion y ddogfen hon fel defnyddio systemau electronig i ddatblygu, gweithredu a chyflwyno deunyddiau dysgu ac asesiadau sy'n cyfrannu at gyflawni safon cyfnod byr.

Ar ben hynny, mae goblygiadau defnyddio dulliau electronig ar gyfer cynhyrchu, cyflwyno a gweinyddu dysgu ac asesu neu gyfrifo canlyniadau wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr hyn y sicrheir ei ansawdd,

Bydd CITB yn archwilio i ba raddau y mae angen sicrhau ansawdd eDdysgu ac eAsesu drwy ystyried pwrpas y cwrs a chanlyniad y cyflawniad er enghraifft yn arwain at gerdyn cymhwysedd neu 'ddiweddaru gwybodaeth DPP'.

## Enghreifftiau o eDdysgu

Mae'r term eDdysgu yn dynodi unrhyw fath o ddysgu sydd ag elfen electronig ac sy'n cynnwys un neu fwy o elfennau eDdysgu, eBrofi a/neu eAsesu. Mae’r enghreifftiau canlynol o eDdysgu yn dangos y cwmpas posibl a’r ystod o wahanol ddefnyddiau - nid yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr.

- Dysgu sy'n cael ei ddosbarthu, ei gwblhau a'i weinyddu'n electronig gan ddefnyddio'r fewnrwyd neu weithfannau lleol.
- Dysgu sy'n cael ei ddosbarthu, ei gwblhau a'i weinyddu'n electronig gan ddefnyddio'r rhyngrwyd

**Enghreifftiau o eAsesiadau**

- Asesiadau-yn cynnwys cyfuniad o farcio awtomatig neu farcio â llaw a gyflwynir mewn un o'r ddwy ffordd uchod.
- Darparu profion electronig, gyda'r holl farcio'n cael ei gwblhau â llaw ar y sgrin.
- Amrywiaeth o fformatau amlgyfrwng ar gyfer cyflwyno asesiad neu brawf.
- Profion sy'n cael eu llwytho i lawr gan y darparwr hyfforddiant o’r rhyngrwyd.
- Darparu hyfforddiant ac asesiadau a chyflwyno asesiadau wedi'u cwblhau dros e-bost diogel.
- Asesiadau sy’n cael eu marcio’n awtomatig ac yn ymateb mewn ffordd addasol i berfformiad cynrychiolydd.

Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant a pherchnogion safonau ystyried yr egwyddorion canlynol yn ofalus o ran sut y gallant hwy, ynghyd â'u partner(iaid) technoleg, sicrhau methodolegau effeithiol a chadarn, ynghyd â galluoedd system a seilwaith dilys a dibynadwy fel y nodir yn y ddogfen hon.

## Dilysrwydd a Dibynadwyedd eAsesu ac eDdysgu

*Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod yr asesu a'r dysgu sy'n cael ei ddarparu a'i gynnal gan gyfryngau electronig yn addas i'r diben a’i fod yn cynhyrchu dull cadarn, dilys a dibynadwy o brofi gwybodaeth a dealltwriaeth cynrychiolydd. Dylai'r dewis o ddull asesu a dysgu fod yn annibynnol ar y dechnoleg y mae'n seiliedig arni.*

1. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod yr eAsesu a'r eDdysgu yn addas i'r diben ac nad yw'n peryglu'r fethodoleg asesu ac uniondeb yr hyn sy'n cael ei addysgu neu ei asesu. Dim ond y wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni’r safon a ddylai gael eu profi yn yr asesiad. Ni ddylai technoleg fod yn rhwystr i allu cynrychiolydd i gael mynediad at eDdysgu neu eAsesu.

2. Rhaid i systemau eDdysgu ac eAsesu gynnal uniondeb a dilysrwydd yr asesiad drwy ddilyn rheolau’r cynllun presennol sy'n cefnogi safonau cyfnod byr penodol, cynnyrch a/neu gymwysterau CITB.

## Diogelwch

Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant gynnal ac adolygu diogelwch systemau eDdysgu a/neu eAsesu i sicrhau canlyniadau prawf dilys a diogelu rhag dylanwadau llygrol. Rhaid i weithdrefnau fod ar waith i sicrhau diogelwch caledwedd a meddalwedd ac uniondeb cynnwys a ffrydiau data.

3. Rhaid i'r trefniadau diogelu data ar gyfer eDdysgu ac eAsesu gydymffurfio, lle bo hynny'n berthnasol, â deddfwriaeth gyfredol a safonau'r diwydiant, gweler (Atodiad 1) am restr o'r deddfwriaethau a'r safonau cyfredol.

4. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod gan y systemau eDdysgu ac eAsesu fesurau diogelu ar waith i sicrhau diogelwch pob agwedd ar eDdysgu ac eAsesu a'u prosesau, gan gynnwys llên-ladrad, copïo ac ymyrryd â chanlyniadau profion.

5. Rhaid i systemau eDdysgu ac eAsesu gynnwys diogelwch digonol, fel meddalwedd a/neu waliau tân a fydd yn diogelu rhag firysau a hacio, ac yn monitro ac yn rhwystro ymdrechion i lygru'r broses ddysgu a/neu asesu.

6. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau, drwy eu partner technoleg, bod y meysydd canlynol yn cael sylw wrth ddatblygu unrhyw system eDdysgu:

    - Datblygu prosesau dilysu priodol.
    - Gwahaniaethu rhwng defnyddwyr ar sail caniatâd a hawliau mynediad.
    - Diogelu meysydd y system er mwyn sicrhau mai dim ond defnyddwyr sydd wedi'u dilysu'n briodol sy'n gallu cael mynediad at rai rhannau o'r system.

7. Rhaid i systemau eDdysgu ac eAsesu allu darparu llwybrau archwilio cywir ac adroddiadau ynghylch defnydd a gweithgarwch y system.

8. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant roi ystyriaeth briodol i ddiogelwch ffisegol caledwedd eDdysgu ac eAsesu. E.e. Gweinyddion.

9. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu'r caledwedd a'r meddalwedd a ddefnyddir i ddarparu eDdysgu ac eAsesu a'r rhwydwaith y mae'n gweithredu ynddo.

10. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fod â gweithdrefnau ar waith a fydd yn diogelu cywirdeb data profion cyn/ar ôl i'r asesiad gael ei gynnal ac wrth iddo gael ei drosglwyddo i/o'r darparwr hyfforddiant, e.e. drwy amgryptio neu ddilysu e-lofnodion yn unol â deddfwriaeth berthnasol gyfredol a safonau'r diwydiant, gweler atodiad 1.

11. Pan fydd darparwr hyfforddiant wedi ymrwymo i gytundeb/trefniant gydag unrhyw ddarparwr, mae'n rhaid iddo fod â chytundeb lefel gwasanaeth neu drefniadau trwyddedu ar waith sy'n egluro cyfrifoldebau pob parti, gan gynnwys diogelwch.

12. Fel arfer da, rhaid i'r system eDdysgu ac eAsesu gyfrifo canlyniadau'n awtomatig gan y system a'u cyflwyno'n ddiogel i'r cynrychiolydd.

## Cywirdeb data – mewnbwn ac allbwn

Rhaid i'r darparwr hyfforddiant fod yn hyderus bod y systemau wedi cael eu profi'n drylwyr a sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti i storio, adalw, cynhyrchu a rhannu'r holl ddata angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y gallu i gyfnewid data'n ddiogel gyda systemau mewnol ac allanol eraill, yn ôl yr angen, heb beryglu cywirdeb y data.

13. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fod yn hyderus bod digon o gapasiti i gadw'r holl ddata angenrheidiol a bod y systemau hynny'n rhedeg yn llwyddiannus. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod capasiti'r system wedi cael ei brofi'n effeithiol.

14. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant roi systemau ar waith i fonitro, adolygu a chywiro unrhyw anghysonderau sy'n codi o ran mewnbwn neu allbwn data ac i fesur cywirdeb yr hyn a gynhyrchir. Dylid ymgorffori hyn yng ngweithdrefnau sicrhau ansawdd y darparwyr hyfforddiant.
15. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fod â threfniadau diogel a chadarn ar waith ar gyfer storio, archifo ac adalw data, gan gynnwys rhyngwynebau effeithiol a diogel â darparwyr gwasanaeth sy'n cael eu rheoli drwy gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth effeithiol.

16. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau drwy brofi’r system ac adolygu’n rheolaidd bod canlyniadau sy'n cael eu cyfrifo’n awtomatig a'u cynhyrchu gan y system eDdysgu yn gywir ac yn ddiogel.

## Rhoi systemau eDdysgu ac eAsesu ar waith

Rhaid i systemau eDdysgu ac eAsesu fod yn sefydlog a gweithio'n ddibynadwy i gynhyrchu canlyniadau dilys a dibynadwy. Rhaid iddynt ddangos eu bod yn gyson â safonau arferion da perthnasol a bod yn hawdd eu defnyddio.

17. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod systemau eDdysgu ac eAsesu yn ddigon cadarn i gefnogi dysgu, asesiadau a/neu brofion.

18. Rhaid i systemau eDdysgu ac eAsesu gynnwys swyddogaeth i gynhyrchu gwybodaeth allweddol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, fanylion cynrychiolwyr, canlyniadau, adroddiadau perfformiad a data ystadegol.

19. Rhaid i'r system fod â dull cadarn o fonitro a chofnodi gweithgarwch ac ymddygiad cynrychiolwyr ar-lein wrth ymgymryd â hyfforddiant a phrofion, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

    - Yr amser a gymerir i gwblhau’r cwrs
    - Canlyniadau arholiadau
    - Yr amser a gymerir i gwblhau arholiadau a sawl gwaith maent yn rhoi

cynnig arni

- Dyddiadau ac amseroedd mewngofnodi ac allgofnodi

## Uniondeb systemau eDdysgu

Rhaid i systemau ganiatáu hyblygrwydd wrth ystyried datblygiadau technolegol. Rhaid i brofion ar y system fod yn drylwyr a chael eu hadolygu'n rheolaidd unwaith y bydd y system yn weithredol. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod cyfleusterau cymorth addas ar gael i gynrychiolwyr a bod cynllun wrth gefn os bydd unrhyw ran o'r system yn methu.

20. Cyn ei rhoi ar waith, mae'n rhaid i'r darparwr hyfforddiant brofi'r system gyfan. Dylai'r profion gynnwys swyddogaethau a chapasiti ar gyfer defnyddwyr cydamserol a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i wneud gwelliannau.

21. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fod â gweithdrefnau ar waith i brofi'r system yn rheolaidd o ran dibynadwyedd a pharhau i'w hadolygu unwaith y bydd y system eDdysgu ac eAsesu ar waith.

22. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod unrhyw feddalwedd sy'n cael ei datblygu'n benodol at ddibenion eDdysgu ac eAsesu yn gydnaws â systemau gweithredu fel nad yw'n rhoi cynrychiolwyr dan unrhyw anfantais.

23. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod digon o gefnogaeth ar gael rhwng y darparwr gwasanaeth a defnyddwyr y system fel nad ydy unrhyw gynrychiolydd dan anfantais.

24. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fod â chyfleusterau i wneud copïau wrth gefn o gronfeydd data bob dydd a bod â chynllun adfer cadarn ar ôl trychineb ar waith.

## *Mynediad at eDdysgu*

*Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant wneud yn siŵr bod polisïau a gweithdrefnau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn peidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw gynrychiolydd ar sail hygyrchedd.*

25. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant roi ystyriaeth yn gynnar yng nghyfnod datblygu deunydd eDdysgu ac eAsesu i'r ffyrdd maent yn rheoli ac yn ystyried cynrychiolwyr sydd â gofynion asesu arbennig. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio busnes, dylunio cynnyrch, datblygu, manyleb cynnyrch a dewis o ran cynnyrch. Rhaid iddo hefyd gydymffurfio â'r brif Ddeddf Cydraddoldeb.

26. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant gael polisi ystyriaethau ac addasiadau rhesymol penodol sy'n nodi sut y bydd addasiadau'n cael eu hystyried a'u darparu mewn ffordd gyson.

27. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant ystyried gofynion asesu arbennig cynrychiolwyr yn gynnar yng nghyfnod datblygu eDdysgu ac eAsesu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i faint ffont, darllenwyr a chynllun yn unol â chanllawiau cydnabyddedig (atodiad 1).

## *Atal rhwystrau i fynediad at eDdysgu*

*Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod technoleg yn reddfol ac nad yw'n creu rhwystr i unrhyw ddefnyddiwr.  Rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer cynrychiolwyr â threfniadau mynediad a/neu addasiadau rhesymol.*

28. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod technoleg ar gael er budd yr holl gynrychiolwyr drwy ddarparu system reddfol iddynt sy'n hyrwyddo dysgu ac asesu o amrywiaeth o leoliadau. Dylai fod canllawiau clir a manylion y cyfleusterau cymorth sydd ar gael.

29. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant ganiatáu amser i ymgyfarwyddo cyn defnyddio'r system ar gyfer sesiynau dysgu byw. Gellid gwneud hyn drwy fodiwl neu diwtorial paratoadol. Ni ddylai'r system atal perfformiad cynrychiolydd.

30. Rhaid i eDdysgu ddarparu rhyngwyneb y gellir ei ddefnyddio a bod yn hawdd ei ddefnyddio.

31. Rhaid i'r system allu addasu amseroedd asesu a/neu brofi yn unol ag unrhyw bolisi addasiadau rhesymol.

## Parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb

Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fod â mesurau addas ar waith i sicrhau parhad busnes i fynd i'r afael â tharfu ar argaeledd gwasanaethau a'r angen i adfer ar ôl trychineb ar gyfer eu gwasanaethau a'u systemau eDdysgu ac eAsesu, os bydd y system yn methu. Dylai mesurau i nodi risgiau posibl i'r gwasanaethau a'r systemau hynny fod yn sail i'r gwaith rheoli hwn fel bod modd eu rheoli i darfu cyn lleied â phosibl.

32. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant roi gweithdrefnau rheoli risg ar waith i ganfod risgiau'n gynnar mewn perthynas â gweithrediad systemau eDdysgu ac eAsesu a galluogi camau i gael eu cymryd i leihau effaith y risgiau hynny, yn unol â safonau arfer da cydnabyddedig.

33. Rhaid i gytundebau lefel gwasanaeth darparwyr hyfforddiant gyda darparwyr gwasanaeth ar gyfer eu systemau eDdysgu ac eAsesu ystyried sut y bydd y system yn rhyngweithio â systemau a darparwyr gwasanaeth eraill, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fel bod modd addasu wrth gontractio gwasanaethau a helpu i reoli risgiau a dibyniaethau os bydd system yn methu.

34. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant roi rhaglen adfer ar ôl trychineb ar waith sy'n nodi sut y byddant yn ailddechrau eu systemau a'u gwasanaethau eDdysgu ac eAsesu ar ôl methiant sylweddol.

35. Rhaid i gynlluniau adfer ar ôl trychineb darparwyr hyfforddiant ddangos sut y bydd mynediad at wasanaethau a chyfleusterau eraill hwylus sydd â'r holl offer angenrheidiol yn cael ei ddarparu. Rhaid i hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sut y bydd gwasanaethau'n cael eu hailddechrau yn unol â blaenoriaethau diffiniedig y darparwyr hyfforddiant ac o fewn yr amserlenni, ar ôl i'r trychineb ddigwydd.

36. Pan fydd yr eDdysgu a'r eAsesu’n cael eu darparu i'r darparwr hyfforddiant gan sefydliad dyfarnu trydydd parti, rhaid cael strategaethau cytbwys cynhwysfawr ar gyfer senarios wrth gefn yng ngoleuni methiant y system yn y ganolfan.

## Profion ar alw a gynhyrchir yn awtomatig

*Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod digon o eitemau neu gwestiynau asesu i ddarparu profion ar alw cyson, cadarn, cytbwys ac unigryw sy'n briodol i ofynion y safon.*

37. Pan fydd darparwyr hyfforddiant yn defnyddio cronfeydd eitemau asesu electronig i gynhyrchu profion ar alw yn awtomatig, mae'n rhaid iddynt sicrhau, drwy brofion trylwyr, bod digon o eitemau asesu ar gael i ddarparu papurau prawf cadarn, cytbwys ac unigryw yn gyson er mwyn gallu darparu ar gyfer y ffenestri asesu/profi.
38. Pan ddefnyddir cronfeydd eitemau asesu electronig i gynhyrchu profion ar alw unigol yn awtomatig, mae'n rhaid i sefydliadau hyfforddi cymeradwy sicrhau nad yw lefel y defnydd yn amharu ar y gwaith o graffu ar eitemau asesu drwy sicrhau bod digon o eitemau ar gael i ddarparu ar gyfer y nifer disgwyliedig o gynrychiolwyr.
39. Pan ddefnyddir yr eitem asesu electronig neu gronfeydd cwestiynau, mae'n rhaid i ddarparwyr hyfforddiant a sefydliadau trydydd parti sicrhau bod pob eitem sy'n cyfrannu at fesur cyflawniad y safon yn gyson a bod modd eu cymharu ag eraill dros amser ar gyfer pob sesiwn.
40. Pan fydd eitemau neu gwestiynau prawf yn cael eu cyflwyno ar hap, mae'n rhaid i ddarparwyr hyfforddiant a sefydliadau trydydd parti fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith i ddadansoddi effaith bosibl gwneud hynny ar berfformiad cynrychiolwyr ac i sicrhau nad yw trefn y cwestiynau'n arwain at ogwydd yn y canlyniadau.
41. Rhaid i brofion ar alw a gynhyrchir yn awtomatig gael eu dylunio'n briodol i roi gofynion asesu penodol a chyfle cyfartal i ddysgwyr.

## Amodau Prawf ac Amgylchedd Prawf

Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant a thrydydd partïon fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y rheolaethau ar amodau prawf mewn perthynas â phrofi ar alw, goruchwylio, yn diogelu amgylcheddau prawf ac iechyd a diogelwch.

42. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod rheolaethau ar amodau prawf mewn perthynas â'r graddau y mae profion ar alw ar gael i sicrhau nad yw diogelwch yr asesiad yn cael ei beryglu gan nifer y cynrychiolwyr sy'n defnyddio'r profion.
43. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant a thrydydd partïon sicrhau a gwarantu bod amgylcheddau profi ar alw yn cael eu rheoli o ran unrhyw ofynion ychwanegol sy'n benodol i ddefnyddio technoleg ar gyfer profi, a bod unrhyw sgiliau neu gymorth newydd y gallai goruchwylwyr y darparwyr hyfforddiant fod eu hangen yn cael eu nodi a'u darparu.

44. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant wneud yn siŵr bod ganddynt bolisïau ar waith sy'n mynd i'r afael â'r angen i reoli'r amgylchedd prawf diogel mewn perthynas â defnyddio technoleg ar gyfer asesu, er enghraifft o ran diogelwch rhwydwaith a chywirdeb data yn eu lleoliadau prawf.

45. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant a thrydydd partïon sicrhau bod yr amgylchedd a'r amodau prawf yn gydnaws â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a'u rhwymedigaethau o dan y gyfraith.

## Ymgyfarwyddo â'r System ar gyfer Hyfforddwyr, Profwyr, Goruchwylwyr a Gweinyddwyr

Hyfforddiant a chymorth i ddefnyddwyr systemau darparwyr hyfforddiant, fel sesiynau ymgyfarwyddo a chanllawiau i'r holl staff sy'n ymwneud ag eDdysgu ac eAsesu.

46. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant ddarparu sesiynau neu gyfleusterau ymgyfarwyddo i arholwyr, cymedrolwyr, gweinyddwyr a goruchwylwyr fel bod ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth o'r feddalwedd brofi. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant gael canllawiau clir ar y cysylltiadau cymorth cywir sydd ar gael ar gyfer pob elfen o'r system.

47. Rhaid i'r system ganiatáu i'r cynrychiolydd ymarfer cyn unrhyw brawf i wneud yn siŵr ei fod yn deall sut y bydd y system a'r prawf yn gweithio o dan amodau prawf.

## Dylunio, Datblygu a Chyflwyno Deunydd eDdysgu ac eAsesu

48. Gall darparwyr hyfforddiant a Sefydliadau Cydnabyddedig Trydydd Parti ddatblygu deunydd asesu a hyfforddi electronig lle mae'r safon cyfnod byr yn nodi'n benodol bod eDdysgu a/neu ddysgu cyfunol yn ddull cyflwyno dilys. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, os nad yw'r safon cyfnod byr yn nodi eDdysgu fel dull cyflawni, yna ni fydd yn cael ei chymeradwyo.

49. Rhaid i hyd unrhyw gwrs a gynlluniwyd i'w gyflwyno drwy eDdysgu gynnwys o leiaf 50% o gyfanswm yr oriau a nodwyd yn y safon tymor byr ar gyfer darpariaeth ystafell ddosbarth draddodiadol a bodloni'r holl ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu.

50. Bydd gofyn i'r darparwr hyfforddiant gyflwyno tystiolaeth amlwg y bydd y cwrs yn bodloni'r gofynion sylfaenol o ran amser cyflawni, a thystiolaeth o brofi ac unrhyw ddiwydrwydd dyladwy sy'n cefnogi'r dull gweithredu.

51. Rhaid i unrhyw gwrs sydd wedi'i gynllunio i gael ei gyflwyno drwy gymysgedd o eDdysgu a darpariaeth draddodiadol yn yr ystafell ddosbarth (dysgu cyfunol) fod o leiaf 75% o gyfanswm yr oriau a nodir yn y safon a chynnwys yr holl ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu.

52. Ar gyfer cyrsiau cyfunol, lle mae'r safon cyfnod byr yn nodi eithriad i'r rheol 75%, gellir cynllunio cyrsiau i fodloni gofynion penodol y safon cyfnod byr

unigol.

53. Rhaid cynllunio'r cwrs fel nad yw'r cynrychiolydd yn hepgor unrhyw elfennau/tudalennau o'r cwrs.

54. Pan fydd cwrs yn fodiwlaidd, rhaid i'r system sicrhau bod holl elfennau'r cwrs wedi cael sylw cyn cwblhau unrhyw asesiad, ac eithrio lle mae'r asesiadau ar ddiwedd pob modiwl.

55. Rhaid i lwyfannau eDdysgu ac eAsesu gynnwys mecanwaith ar gyfer cynnwys datganiad o ran cyfyngiadau cwrs fel bod y cynrychiolydd yn deall cyfyngiadau'r fethodoleg. Gweler yr enghraifft isod.

- *Er bod eDdysgu yn cynnig hyblygrwydd a hygyrchedd, mae iddo gyfyngiadau. Mae'r rhain yn cynnwys problemau posibl gyda mynediad at dechnoleg a dibynadwyedd, heriau o ran dyblygu rhyngweithio cymdeithasol ystafelloedd dosbarth traddodiadol, ac effeithiolrwydd amrywiol ar gyfer gwahanol fathau o gynnwys dysgu. Ar ben hynny, mae angen hunan-gymhelliant a hunanddisgyblaeth gref ar gynrychiolwyr, a gall fod yn anodd sicrhau hygyrchedd i bawb, yn enwedig y rheini sydd ag anableddau.*

56. Bydd tîm Sicrhau Ansawdd CITB yn adolygu deunydd eDdysgu ac eAsesu fel rhan o'r broses hunanasesu a chymeradwyo. Ni fydd cyrsiau a systemau nad ydynt yn bodloni'r gofynion yn cael eu cymeradwyo ac ni fyddant yn gymwys am grant.